# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 28 Chwefror 2024

Amser: 09.30 - 11.46

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13836) yn:

http://senedd.tv/cy/13836

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Heledd Fychan AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod yn rhaid i James Evans AS adael y cyfarfod am 11.30.

## 2 Gwaith craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Prif Weinidog yn y meysydd o fewn ei bortffolio.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Darparu rhagor o wybodaeth am y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill, gan gynnwys pam y credwch na ellir defnyddio’r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud cymariaethau rhwng blynyddoedd;
- Edrych ymhellach ar ddata Rhwydwaith Seren mewn perthynas â'r disgyblion hynny nad ydynt efallai'n parhau ar y rhaglen, i nodi a oes unrhyw dueddiadau mewn perthynas â'u perfformiad dilynol a'u hymgysylltiad â'u dysgu;
- Darparu rhagor o wybodaeth am sut y gellir annog a chynyddu'r niferoedd sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu a chynnwys y maes llafur;
- Darparu gwybodaeth am yr ymchwil a wnaed, a’r canllawiau a gyhoeddwyd, ynglŷn â sut y gallai ysgolion ddarparu addysgu a dysgu digidol o bell pe bai angen am hyn eto yn y dyfodol;
- Cadarnhau pryd y rhagwelir y cyhoeddir y canllawiau cryfach ar Deithio gan Ddysgwyr;
- Ystyried ymhellach sut y gellir adrodd yn ôl ar waith y Tasglu Presenoldeb i’r Senedd a/neu’r Pwyllgor;
- Rhannu'r data cyfranogiad e-sgol; a
- Rhannu, pan fydd ar gael, gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y dull ysgol gyfan.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod cyfan ar 7 Mawrth

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gwaith craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg – trafod y dystiolaeth

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywodd yn y sesiwn graffu.

5.2 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog i wneud gwaith dilynol ar rai o'r pwyntiau a godwyd.

## 6 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Byddai fersiwn ddiwygiedig yn cael ei thrafod yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.